

Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Yng Nghymru



Ebrill – Mai 2014

Gall y cyhoeddiad hwn gael i ei ddarparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd ychydig o oedi wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copi o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC
Swyddfeydd y Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126

Ebost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: www.aggcc.org.uk

Gwefan y Gydarolygiaeth: www.inspectionwales.com

Ffôn: 0300 062 8163

Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: www.hiw.org.uk

Yr Adolygiad Cenedlaethol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005¹ yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain. Cafodd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid² eu cyflwyno'n ddiweddarach i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae rhywun o bosibl yn colli ei ryddid o fewn ystyr erthygl 5 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gellir cymhwyso'r trefniadau diogelu i unigolion dros 18 oed sydd ag anhwylder meddwl ac nad ydynt yn meddu ar y gallu gwybyddol (galluedd meddyliol) i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain.

Cafodd yr adolygiad cenedlaethol ei gynnal fel rhan o waith Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i fonitro'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Fe wnaeth AGGCC ac AGIC ymrwymiad i wneud gwaith pellach yn ystod 2013/14 i archwilio'r modd y caiff y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu cymhwyso ac effeithiolrwydd arferion gweithio yn y maes yn dilyn cyhoeddi'r trydydd adroddiad monitro blynyddol, 2011/12.

Roedd yr amcanion fel a ganlyn:

- Canfod a yw'r "Trefniadau Diogelu" yn effeithiol o ran cadw pobl yn ddiogel ac nad yw'r Person Perthnasol/unigolion yn colli eu rhyddid yn ddiangen neu heb i drefniadau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith.
- Adolygu'r modd y mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei weithredu'n ymarferol a phenderfynu pa un a ddylid diwygio a diweddarau'r canllawiau.
- Ymchwilio i'r hyn sy'n cyfrannu at anghysonderau o ran defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar draws y Cynghorau a'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yng Nghymru.
- Canfod a yw ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddu ar yr ymwybyddiaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu priod gyfrifoldebau i gymhwyso a rheoli Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol pan fo'n briodol.
- Deall profiad unigolion a gofalgwyr.
- Adnabod ac adrodd ar arfer da.

¹ Gweler y Rhestr Termau

² Gweler y Rhestr Termau

Yr Hyn a Oedd yn Gweithio'n Dda

- Cydgysylltwyr Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Cyrff Goruchwyliol³ oedd hoelion wyth y gyfundrefn ac yn aml eu hymrwymiad personol hwy oedd yn cael yr effaith fwyaf ar ansawdd a nifer y ceisiadau. Roedd hyn yn wir mewn BILlau a chynghorau, ac roedd hygyrchedd, bod yn hawdd mynd atynt a chysondeb y cyngor yr oeddent yn ei roi'n nodweddion hanfodol.
- Mae'r Aseswyr Budd Pennaf⁴ yn adnodd medrus a gwerthfawr, a ledled Cymru mae ystod o weithwyr proffesiynol profiadol yn cyflawni'r rôl hon. Maent yn cael effaith sylweddol ar ddylanwadu ar arferion gweithio eu cydweithwyr gan eu bod yn gweithredu fel adnodd/hyrwyddwr mewnol o fewn eu timau a'u meysydd gwasanaeth. Yn y ffordd yma maent yn gwneud cyfraniad gwych tuag at sefydlu pum egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddyliol fel rhan annatod o ddiwylliant ac arferion gweithio timau iechyd a chymdeithasol.
- Roedd rhai trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith rhwng meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a oedd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, megis Aseswyr Budd Pennaf, ac yn cefnogi dull amlddisgyblaethol ar y cyd o ymdrin â rhai achosion cymhleth iawn.
- Mae gan sawl awdurdod a phartneriaeth fforwm arfer da o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sy'n cwrdd bob hyn a hyn er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd o achosion cymhleth ac ystyried cyfraith achos sy'n dod i'r amlwg. Byddai'n fuddiol ystyried sut i gynnwys Awdurdodau Rheoli yn hwn neu mewn fforwm tebyg.
- Roedd rhai enghreifftiau da iawn o bolisiau a gweithdrefnau lleol sydd ar waith; gan gynnwys enghreifftiau o ffurflenni enghreifftiol a oedd yn dangos pa lefel o fanylder oedd yn ofynnol ac yn rhoi cymorth gydag iaith a therminoleg.
- Roedd y trefniadau llywodraethu a welwyd yn y BILlau ar y cyfan yn eglur a chadarn, gyda llofnodwyr dynodedig ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r swyddogaethau fel Corff Goruchwyliol ac fel Awdurdod Rheoli wedi'u gwahanu'n eglur.
- Lle'r oedd Trefniadau Diogelu'n bodoli, roeddent wedi cyfrannu at gefnogi pobl mewn amgylchiadau heriol iawn ac roeddent yn arbennig o effeithiol lle'r oedd amodau pwrpasol a oedd wedi'u bwriadu i weithio tuag at leihau/dileu'r achos o golli rhyddid.

³ Gweler y Rhestr Termau

⁴ Gweler y Rhestr Termau

Yr Hyn yr Oedd Angen Iddo Wella

Roedd y defnydd o amodau⁵ yn amrywiol iawn a phrin yr oedd rhai ardaloedd yn eu defnyddio, a oedd yn golygu bod achos o golli rhyddid wedi cael ei awdurdodi, ond nad oedd digon yn cael ei wneud i geisio datrysiad llai cyfyngol ar gyfer y Person Perthnasol. Yn yr un modd, roedd hyd byr iawn rhai awdurdodiadau wedi golygu nad oedd sefyllfa'r Person Perthnasol wedi newid cyn bod angen awdurdodiadau pellach.

Argymhellion

- 1. Dylai Cyrff Goruchwyliol archwilio'u harferion presennol i sicrhau bod amodau'n cael eu defnyddio lle y bo angen a bod y rhain yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i'r Person Perthnasol, gan gynnwys lleihau neu ddileu'r achos o golli rhyddid.**
- 2. Dylai Cyrff Goruchwyliol sicrhau bod hyd yr awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn gydnaws â gweithio tuag at yr opsiwn lleiaf cyfyngol.**

Nid oedd yr Awdurdodau Rheoli⁶, yn enwedig ond nid dim ond cartrefi gofal, wastad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac roeddent yn dibynnu'n fawr ar y Cyrff Goruchwyliol i ysgogi a rheoli'r broses. Roedd hyn yn golygu bod ansawdd a nifer y ceisiadau'n amrywio hyd yn oed rhwng lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol lle'r oedd anghenion y bobl yn debyg iawn. Roedd rhai Awdurdodau Rheoli'n meddwl y byddai gwneud cais am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn adlewyrchu'n wael ar eu sefydliad, ac nid oeddent yn deall eu bod yn dangos dull rhagweithiol ac ataliol o gefnogi pobl sydd â diffyg galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ynghylch eu trefniadau gofal a chymorth.

Roedd gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd ar gael ond nid mewn fformat hygyrch bob amser. Awgrymodd gofalywyr a rhanddeiliaid eraill y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr adolygiad y dylai fersiynau "hawdd i'w darllen" o'r Cod Ymarfer fod ar gael ac y dylid ei ddosbarthu'n fwy eang, yn enwedig i'r sefydliadau gofalywyr.

Argymhellion:

- 3. Dylai Cynghorau a Billau sicrhau bod y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hadlewyrchu yn eu contractau, mewn manylebau gwasanaethau a threfniadau monitro gydag Awdurdodau Rheoli, gan gynnwys gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol a sut y caiff egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol eu sefydlu fel rhan annatod o'r trefniadau gofal a chymorth o ddydd i ddydd.**
- 4. Dylai Cyrff Goruchwyliol ddatblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd ac adrodd cadarn i sicrhau bod ceisiadau, asesiadau ac awdurdodiadau'n cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau a chyfraith achos.**

⁵ Gweler y Rhestr Termaw

⁶ Gweler y Rhestr Termaw

5. Dylai Cyrff Goruchwyliol ac Awdurdodau Rheoli sicrhau bod gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gael yn rhwydd mewn ystod o fformatau.

Roedd yr hyfforddiant a'r datblygiad sgiliau ar gyfer staff sy'n rhan o weithredu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn dameidiog iawn. Mae angen i Awdurdodau Rheoli fod â mynediad dibynadwy at hyfforddiant a chymorth proffesiynol parhaus sy'n canolbwyntio ar eu rôl a'u cyfrifoldebau arbennig hwy. Er enghraifft, nid oedd hyfforddiant ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wastad yn orfodol ac roedd weithiau'n cael ei gyfuno â hyfforddiant ar ddiogelu mewn un sesiwn. Gall hyn achosi dryswch a gall fod yn cyfrannu at yr amrywioldeb o ran canfod achosion o golli rhyddid gan Awdurdodau Rheoli a oedd yn achosi cryn bryder.

Mae dulliau gwahanol iawn wedi cael eu defnyddio ledled Cymru i recriwtio Aseswyr Budd Pennaf ac nid oedd gan bob Corff Goruchwyliol fynediad at niferoedd digonol na'r ystod angenrheidiol o brofiad a sgiliau proffesiynol. Roedd rôl yr Aseswyr Budd Pennaf yn cael ei chyfrif yn "ychwanegiad" ac roedd Aseswyr Budd Pennaf yn aml yn gorfod trafod telerau gyda'u rheolwr i gael eu rhyddhau i wneud yr asesiadau.

Mae'r ffordd y ceir mynediad at hyfforddiant ar gyfer Aseswyr Budd Pennaf yn wahanol ar draws y Cyrff Goruchwyliol yng Nghymru hefyd. Mae hyn yn golygu nad yw rhai cyrsiau y ceir mynediad atynt wedi'u hachredu a bod Cyrff Goruchwyliol eraill yn cael mynediad at y cyrsiau sy'n dal i gael eu hachredu yn Lloegr.

Argymhellion:

6. Dylai fod gan y Cyrff Goruchwyliol strategaeth datblygu'r gweithlu i sicrhau eu bod yn gallu ateb gofynion y Ddeddf Galluedd Meddyliol, deddfwriaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a Dyfarniad y Goruchaf Lys. Dylai hyn gynnwys gallu'r gweithlu arwain a rheoli, recriwtio a chadw, datblygiad sgiliau, gweithio integredig a rheoleiddio'r gweithlu ar draws y llwybr cyfan ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gan gynnwys Awdurdodau Rheoli.

7. Mae angen rhaglen achrededig i hyfforddi Aseswyr Budd Pennaf sy'n darparu'r safonau ymarfer a'r galluedd i gyflawni'r rôl. Bydd angen i'r gallu o ran yr Aseswyr Budd Pennaf gael ei gynyddu i sicrhau bod Cymru'n cynnal mynediad at nifer priodol ac ystod briodol o weithwyr proffesiynol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Roedd nifer yr atgyfeiriadau at Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol⁷ yn isel iawn ar y cyfan ledled Cymru. Mae rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol o ran cefnogi a chynrychioli'r Person Perthnasol a'i gynrychiolydd trwy'r broses benderfynu gymhleth yn hanfodol, ond nid oedd yn cael ei hyrwyddo'n weithredol gan rai Cyrff Goruchwyliol.

⁷ Gweler y Rhestr Termau

Argymhellion:

8. Dylai Cyrff Goruchwyliol ddatblygu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, eu staff ac Awdurdodau Rheoli sy'n hyrwyddo rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ac annog dealltwriaeth well am eu cyfraniad posibl tuag at gefnogi pobl agored i niwed mewn amgylchiadau sy'n aml yn gryn her.

Nid yw'r trefniadau llywodraethu yn y cynghorau hynny sydd â swyddogaethau fel Corff Goruchwyliol ac Awdurdod Rheoli wastad wedi'u diffinio a'u gwahanu'n eglur fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer. Nid oedd llofnodwyr mewn Cyrff Goruchwyliol wastad ar lefel y byddech yn disgwyl iddynt fod o ystyried arwyddocâd y ddeddfwriaeth a'r effaith ar y Person Perthnasol.

Gofynnwyd i Gyrff Goruchwyliol a oeddent yn adrodd ar weithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o fewn eu trefniadau monitro perfformiad lleol yn yr arolwg a oedd yn rhan o'r adolygiad cenedlaethol. Datganodd wyth sefydliad nad oeddent yn adrodd ar yr wybodaeth hon ac, o'r rheiny a oedd, roedd yr ymatebion yn dangos nad oedd gwaith monitro'n cael ei wneud ar lefel gyson. Fodd bynnag, yn gynyddol, adroddir ar y gweithgarwch hwn fel rhan o drefniadau'r Bwrdd Diogelu Oedolion ac wrth Bwyllgorau Craffu mewn cynghorau ac wrth Fyrddau Gweithredol y BILlau. Mae hyn yn newid pwysig sy'n dangos newid diwylliant ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol tuag at ddiogelu hawliau oedolion agored i niwed ac atal cyfyngiadau ac achosion o golli rhyddid sy'n ddiangen.

Argymhellion:

9. Rhaid i drefniadau llywodraethu gael eu diffinio'n eglur gan bob Corff Llywodraethol a chynnwys, lle y bo'n berthnasol, sut y mae eu swyddogaethau'n cael eu gwahanu ac ar ba lefel reoli y mae llofnodwyr y Corff Goruchwyliol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

10 Dylai trefniadau adrodd cyson ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael eu sefydlu fel rhan o'r trefniadau monitro perfformiad o fewn y Cyrff Goruchwyliol a chan Fyrddau Diogelu Oedolion.

Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr adolygiad cenedlaethol ym mis Ebrill a mis Mai 2014, ac roedd yn cynnwys arolwg electronig o'r BILlau ac awdurdodau lleol yng Nghymru a gwaith maes ym mhob BILl ac mewn un awdurdod lleol ar ôl troed pob BILl rhwng mis Ebrill a mis Mai 2014. Roedd hyn yn cynnwys bwrw golwg fanwl ar ddetholiad o geisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, cyfweld â'r Person Perthnasol a'i Gynrychiolydd⁸, teuluoedd, rheolwyr a staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a grwpiau ffocws gyda sefydliadau sy'n rhanddeiliaid. Yn ystod yr arolwg fe wnaed gwaith tracio achosion ar 84 o geisiadau, sef 13% o gyfanswm y ceisiadau a wnaed yn 2013/14.

Fe wnaed y gwaith maes yn fuan wedi i'r Goruchaf Lys gyflwyno dyfarniad yn achos P a Gorllewin Swydd Gaer sydd wedi arwain at gynnydd mewn ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd y dyfarniad yn egluro'r diffiniad ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac yn cyflwyno "prawf eithaf" sy'n datgan, os yw person dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ac os nad yw'n rhydd i adael, yna mae wedi colli ei ryddid. Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o ganlyniadau'r arolwg, gwaith maes a'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn dan y pum maes a ddefnyddir yn y fframwaith arolygu.

1. Ansawdd Ceisiadau ac Aseu

Canfod ac Ymgeisio

Mae Dyfarniad y Goruchaf Lys wedi rhoi eglurder o ran y ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu pryd y dylid gwneud cais am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sef y prawf eithaf fel y'i gelwir. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd y trothwy ar gyfer gwneud cais wastad yn glir nac yn cael ei ddeall gan yr Awdurdodau Rheoli neu drydydd partïon eraill. Roedd dehongliadau gwahanol o'r canllawiau wedi cyfrannu at anghysonderau mewn ceisiadau ac roedd nifer y ceisiadau yng Nghymru'n dal i fod yn is na'r disgwyl, o ystyried niferoedd cynyddol y bobl mewn cartref gofal ac mewn ysbyty sydd ag anghenion cymhleth sy'n cynnwys nam gwybyddol. Mae hyn yn dynodi bod nifer o bobl yn flaenorol a ddylai fod wedi cael cymorth ar ffurf awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ond nad oeddent yn cael y cymorth hwnnw.

Yn y mwyafrif o gartrefi gofal yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad, roedd gwybodaeth am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a hyder o ran eu defnyddio, yn gyfyngedig. Datganodd rheolwyr a staff eu bod yn ddibynnol iawn ar eu hawdurdod lleol fel corff goruchwylol i ganfod cyfyngiadau ac achosion posibl o golli rhyddid, hyd yn oed ar adeg derbyn pobl, ac i'w cefnogi trwy'r broses. Roedd eu diffyg ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau am ganfod a defnyddio awdurdodiadau brys, lle'r oedd angen, yn achos pryder mawr. Roedd nifer fach o eithriadau, sef yn aml iawn y lleoliadau hynny sy'n arbenigo mewn cefnogi pobl ag ymddygiad heriol mwy cymhleth neu a oedd â phrofiad blaenorol o wneud ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae rhai lleoliadau gofal yn gwneud sawl cais bobl blwyddyn ac nid yw eraill yn gwneud yr un cais, er bod anghenion eu preswylwyr yn debyg iawn.

Cafodd y cwestiwn pwy ddylai fod yn cynnal aseuadau o alluedd ei godi gyda'r arolygwyr ar sawl achlysur a gwelsom enghreifftiau da o gartrefi gofal a oedd yn gwirio galluedd person pan oedd yn cael ei dderbyn ac mewn adolygiadau dilynol. Roedd rhai cynghorau'n

⁸ Gweler y Rhestr Termau

Ilwyddiannus iawn o ran cyfleu'r neges ynglŷn â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli niwed i'r cartrefi gofal yr oeddent yn eu goruchwyllo ac o ran rhoi cymorth iddynt trwy'r broses, tra'r oedd eraill yn peidio â defnyddio dull partneriaeth ac yn disgwyl i'r cartrefi gofal gymryd cyfrifoldeb.

Cartref Gofal Pen y Bont Court

Roedd y lleoliad gofal hwn wedi datblygu rhestr wirio i'w defnyddio ar ddiwrnod derbyn preswylwyr (neu pan fyddai eu hamgylchiadau'n newid) ar gyfer pobl y gall fod ganddynt ddiffyg galluedd. Roedd y rhestr wirio hon yn eu helpu i adnabod achosion posibl o golli rhyddid a chymryd camau addas megis ymgeisio am awdurdodiad brys ac/neu safonol, cysylltu â'r tîm diogelu oedolion neu weithiwr cymdeithasol.

Roedd diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth hefyd am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ymhlith staff mewn rhai ysbytai, er bod hyn yn dechrau newid. Roedd yr Awdurdodau Rheoli mewn ysbytai'n ystyried bod y broses ymgeisio dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn rhy gymhleth a maith. O ganlyniad roedd ansawdd y ceisiadau'n amrywio'n fawr ac roedd ceisiadau'n aml yn cael eu hysgogi fel rhan o gynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty.

Mynegodd rhai staff iechyd ganfyddiad hefyd bod cynodiadau negyddol yn perthyn i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac y byddai cais yn adlewyrchu'n wael ar eu sefydliad. Hefyd, roedd tuedd i ganolbwyntio ar gleifion a oedd yn mynnu ac/neu'n ceisio gadael ac nid oedd ystyriaethau eraill, megis mynediad at aelodau o'r teulu, yn cael sylw. Ymddengys felly fod y modd y caiff y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu cymhwyso wedi dod yn fater o ryddid i adael, yn hytrach na'r rhyddid i gyflawni agweddau eraill ar eu bywydau. Nodwyd hefyd fod gan y GIG yn ei ofal, mewn ystod o leoliadau, nifer o bobl a oedd mewn gwelyau hirdymor yn yr ysbyty'n flaenorol ond yr oedd eu trefniadau gofal yn gyfyngol iawn a cheisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid heb gael eu hystyried.

Nid oedd dull safonol na chyson o ymdrin â'r broses o ymgeisio am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ledled Cymru. Fodd bynnag, mewn ardaloedd lle'r oedd niferoedd uwch o geisiadau'n cael eu gwneud, roedd y broses yn tueddu i fod yn fwy eglur ac wedi'i diffinio'n dda. Roedd gan rai Cyrff Goruchwyllo system i sicrhau ansawdd ceisiadau ond gwelodd Arolygwyr nifer o wallau a hepgoriadau yn y ddogfennaeth a allai beri iddynt fod yn annilys ac/neu'n agored i her gyfreithiol.

Ymatebolrwydd ac Ansawdd Asesu

Mae cais dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cynnwys chwe asesiad y mae'n rhaid iddynt gael eu cwblhau gan ddau weithiwr proffesiynol ar wahân â chymwysterau priodol o fewn amserlenni rhagnodedig. Roedd y mwyafrif o'r asesiadau a welwyd yn fanwl a thrylwyr, gyda phob elfen wedi'i chwblhau fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer. Roedd nifer o enghreifftiau o achosion cymhleth tu hwnt lle'r oedd Deddf Iechyd Meddwl 1983 wedi cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd yr asesiadau ar y cyfan wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol hefyd sy'n gallu bod yn her gan fod Aseswyr Budd Pennaf y cyfwelodd arolygwyr â hwy'n amcangyfrif y gall pob asesiad gymryd rhwng 10 a 15 awr.

Fodd bynnag, mewn un ardal â nifer uchel o geisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, roedd problemau o ran cwblhau'r asesiadau o fewn yr amserlenni ac roedd Awdurdodau Rheoli wedi gorfod ymestyn awdurdodiadau brys. Roedd hyn yn cael ei waethygu gan y defnydd o awdurdodiadau byr iawn yr ystyrir ei fod yn arfer da gan fod y Cod Ymarfer yn nodi y dylai awdurdodiad fod am y "cyfnod byrraf posibl". Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o sefyllfaoedd lle'r oedd hyd byr yr awdurdodiad wedi golygu nad oedd sefyllfa'r Person Perthnasol wedi newid cyn bod angen awdurdodiad arall ac roedd cyfundrefn y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid dan bwysau sylweddol oherwydd nifer yr adolygiadau a oedd yn cael eu hysgogi. Roedd yn ymddangos bod y ffocws yn y sefyllfaoedd hyn yn fwy ar drwyddedu'r achosion o golli rhyddid, yn hytrach na cheisio dewis llai cyfyngol. Gallai'r cynnydd yn nifer y ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn dilyn Dyfarniad y Goruchaf Lys gynyddu'r pwysau hwn i awdurdodi achosion o golli rhyddid heb geisio dewisiadau eraill.

Roedd y Cod Ymarfer yn hygyrch i'r staff a oedd yn gysylltiedig â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac roedd yn cael ei ddefnyddio fel arweiniad i ymarferwyr. Roedd rheolwyr a staff yn ystyried y dylai'r Cod Ymarfer⁹ ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael ei ddiweddarau i adlewyrchu cyfraith achos newydd ac fe ddywedon nhw hefyd y byddai canllawiau pellach yn glŷn â sut a phryd i wneud cais yn cael eu croesawu. Awgrymwyd y dylai fod Cod Ymarfer ar gyfer Cymru yn unig gan nad yw'r fersiwn cyfredol o anghenraid yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru sydd â gwahaniaethau arwyddocaol o'i gymharu â'r trefniadau yn Lloegr. Yn arbennig, nid oes gan sefydliadau'r GIG yn Lloegr gyfrifoldebau goruchwyliol mwyach. Awgrymwyd hefyd gan ofalwyr a rhanddeiliaid eraill y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr adolygiad y dylai fersiynau "hawdd i'w darllen" o'r Cod Ymarfer fod ar gael ac y dylid ei ddsbarthu'n fwy eang, yn enwedig i'r sefydliadau gofalgwyr.

Ceisiadau i'r Llys Gwarchod

Nid oedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar geisiadau i'r Llys Gwarchod ac nid oedd cais o'r fath wedi cael ei wneud ar gyfer unrhyw un o'r achosion a gafodd eu tracio yn ystod yr adolygiad, boed i adolygu'r awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid neu ar gyfer rhywun mewn lleoliad heblaw am gartref gofal.

2. Ansawdd Canlyniadau

Ansawdd y Cymorth a'r Dulliau a ddefnyddir o fewn Trefniadau Diogelu

Lle mae Trefniadau Diogelu'n bodoli, gallant gyfrannu at gefnogi pobl mewn amgylchiadau sy'n gryn her ac maent yn arbennig o effeithiol lle ceir amodau pwrpasol sydd wedi'u bwriadu i weithio tuag at leihau/dileu'r achos o golli rhyddid. Gall Aseswyr Budd Pennaf argymhell amodau mewn awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid lle y bo'n angenrheidiol ac fe allai'r rhain gynnwys, er enghraifft, cymorth staff ychwanegol neu newid yn nhrefniadau gofal y Person Perthnasol. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid oedd amodau'n cael eu defnyddio'n helaeth yn yr achosion a adolygwyd a, lle'r oeddent yn cael eu defnyddio, nid oedd yr Awdurdod Rheoli wastad wedi deall bod angen iddo'u goruchwylio a'u cymhwyso i drefniadau gofal a chymorth y Person Perthnasol. Fe welodd arolygwyr nifer o enghreifftiau da iawn lle'r oedd amodau wedi cael eu defnyddio'n effeithiol iawn i ddiogelu hawliau dynol unigolyn a gwella'i ganlyniadau.

Cadarnhaodd Aseswyr Budd Pennaf mewn gwasanaethau cymdeithasol ei bod yn bosibl comisiynu trefniadau gofal llai cyfyngol lle'r oedd angen, er enghraifft lleoliad arall neu staff ychwanegol ond mynegodd Awdurdodau Rheoli fwy o amheuan ac fe ddywedon nhw fod yn rhaid i'r amodau fod yn "realistig".

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Yn ystod y misoedd lawer yr oedd y claf yn yr ysbyty, mae cofnodion yn dangos bod ei alluedd meddyliol wedi cael ei adolygu'n rheolaidd mewn perthynas â'i drefniadau gofal a chymorth hirdymor. Caniatwyd nifer o awdurdodiadau safonol yn ystod y cyfnod hwn a chafodd ei drosglwyddo i gartref gofal yn y pen draw gydag awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei roi yno. Cafodd gymorth yn ddiweddarach i ddewis byw yn ei gartref ei hun yn y gymuned.

Roedd y canlyniadau ar gyfer cleifion mewn ysbytai yr oedd awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael eu rhoi ar eu cyfer wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda nifer yn cael cymorth i ddychwelyd adref. Mewn rhai achosion a gafodd eu tracio, roedd dull amlddisgyblaethol wedi cael ei ddefnyddio a chynllun manwl wedi cael ei weithredu i drosglwyddo'r Person Perthnasol i gartref gofal gyda'r awdurdodiad newydd dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel yr oedd angen. Mewn achosion a adolygwyd lle'r oedd y claf wedi bod dan ofal y gwasanaethau iechyd meddwl, dywedwyd wrthym gan y gweithwyr proffesiynol cysylltiedig fod tueddiad i ddefnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn hytrach na'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Monitro ac Adolygiadau

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Rheoli fonitro'r canlyniadau ar gyfer y Person Perthnasol, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod unrhyw amodau'n cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau gofal a chymorth, a bod gofynion cymhwyso'n dal i gael eu hateb. Nid oedd y cartrefi gofal yr ymwelwyd â hwy wastad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i fonitro a gofyn am adolygiadau ac roeddent yn dibynnu'n fawr ar y Cyrff Goruchwyliol i'w hysgogi.

3. Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau, Cleifion a Gofalwyr

Llais Unigolion, Gofalwyr a Chynrychiolwyr

Siaradodd arolygwyr gyda phobl a oedd yn gysylltiedig â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, gan gynnwys y Person Perthnasol (lle'r oedd yn briodol), a'i ofalwyr a chynrychiolwyr, am eu profiadau. Roedd y gofalwyr i gyd yn canmol eu profiad, er bod y derminoleg a'u pryder ynghylch y syniad o amddifadu eu perthynas neu ffrind o'i ryddid wedi codi ofn arnynt yn wreiddiol. Roedd eu profiad o Aseswyr Budd Pennaf yn gadarnhaol iawn ac roeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u sicrhau bod eu ffrind neu berthynas yn cael ei amddiffyn a'i gadw'n ddiogel. Gofynnodd un aelod o deulu pam fod yr awdurdodiadau'n para am gyfnod mor fyr pan fo'n amlwg nad oedd sefyllfa ei fam yn mynd i newid ac roedd yn teimlo bod hyn yn creu llawer o ansicrwydd i'r teulu.

Yn ymarferol, nid oedd Cynrychiolydd Person Perthnasol wastad yn cael ei benodi mewn ffordd systematig ac, mewn rhai ardaloedd, ychydig iawn oedd wedi cael eu penodi. Roedd yn amlwg bod rhai wedi gwneud mwy o ymdrech i adnabod Cynrychiolydd Person Perthnasol nag eraill. Tynnwyd sylw'r arolygwyr hefyd at y ffaith y gall fod gwrthdaro buddiannau weithiau rhwng y Cynrychiolydd Person Perthnasol a'r Person Perthnasol a'i bod yn bwysig felly ystyried penodi Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol dan yr amgylchiadau hyn. Fe siaradon ni gyda nifer o bobl a oedd wedi gweithredu fel y Cynrychiolydd Person Perthnasol, ac fe ddywedon nhw eu bod wedi cael gwybodaeth a chymorth i ddeall eu rôl a'i phwysigrwydd.

Mynediad at Gyngor, Gwybodaeth a Chymorth Proffesiynol

Mae nifer yr atgyfeiriadau at Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol yn isel iawn ar y cyfan yng Nghymru, gyda rhai eithriadau. Roedd canfyddiad ymhlith y sefydliadau a oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn nad oedd eu rôl yn cael ei hyrwyddo na'i deall gan y Cyrff Goruchwyliol. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer mynediad at y gwasanaethau Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol yn bodoli ledled Cymru, a'r rheiny'n aml ar y cyd ag awdurdodau cyfagos a Byrddau Iechyd Lleol. Caiff y mwyafrif o'r atgyfeiriadau at Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol eu hysgogi gan yr Aseswyr Budd Pennaf ac mae perthnasoedd gweithio'n gadarnhaol iawn ar y cyfan. Lle'r oedd Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi chwarae rhan, roedd yr Awdurdodau Rheoli'n canmol eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Cyfarfu arolygwyr ag ystod o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai o'r trydydd sector, ac fe ofynnodd nhw am eu profiadau o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer y bobl yr oeddent yn eu cynrychioli. Roedd eu gwybodaeth yn weddol gyfyngedig ac yn ddibynnol ar natur eu gwaith, a pha un a oeddent wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol. Roedd hyn i'w weld fel pe bai'n cadarnhau nad yw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi bod yn fater uchel ei broffil, tan yn ddiweddar, ymhlith y gymuned ehangach ac mewn un ardal ni ddigwyddodd y cyfarfod gyda rhanddeiliaid gan nad oedd y cyngor a'r BILL yn ystyried bod grŵp digon cynrychiolaidd yn bodoli.

Roedd y bobl y siaradon ni gyda hwy'n teimlo ar y cyfan bod ganddynt fynediad at yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt a hynny mewn fformat a oedd yn hygyrch iddynt, gan gynnwys y Gymraeg, yn y BILL a'r cyngor. Roedd yr wybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gael yn eang hefyd mewn ysbytai ond nid yn gymaint mewn cartrefi gofal. Nid oedd gwybodaeth am gwynion a phryderon ynglŷn â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei chasglu'n rheolaidd gan unrhyw sefydliadau a oedd yn rhan o'r adolygiad.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Roedd tystiolaeth bod anghenion diwylliannol wedi cael eu hadnabod a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac unrhyw amodau a roddir ar waith trwy'r trefniadau gofal a chymorth. Roedd hyn yn cynnwys darparu'r wybodaeth a'r ddogfennaeth yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill megis rhai Hawdd i'w Darllen.

4. Ansawdd y Gweithlu

Arweinyddiaeth ac Arbenigedd Proffesiynol

Canfuwyd mai cydgysylltwyr y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oedd hoelion wyth y gyfundrefn, ac yn aml eu hymrwymiad personol a'u sgil hwy oedd yn cael yr effaith fwyaf ar ansawdd a nifer y ceisiadau. Roedd hyn yn wir mewn BILLau ac awdurdodau lleol. Roedd swyddogaeth cydgysylltu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn aml yn cael ei rhoi i unigolyn fel un o'i ystod ehangach o gyfrifoldebau. Roedd yr unigolion hynny'n gweithredu ar y cyd â'r cymorth gweinyddiaeth fusnes yn eu sefydliad fel y canolbwynt, tuag at allan i'r Awdurdodau Rheoli, ac yn fewnol i Aseswyr Budd Pennaf eu sefydliad eu hunain a swyddogaeth eu sefydliad fel Awdurdod Rheoli. Roedd bod yn hygyrch, yn hawdd mynd atynt a bod yn gyson o ran y cyngor yr oeddent yn ei roi'n briodoleddau hanfodol, a chanfuom nifer o gydgysylltwyr Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a oedd yn uchel eu parch ymhlith eu

cymheiriaid. Yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys, mae'r holl sefydliadau'n adolygu'r gallu a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Cynllunio'r Gweithlu – Recriwtio, Gallu a Sgiliau

Roedd y sefydliadau yr ymwelon ni â hwy wedi mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i recriwtio Aseswyr Budd Pennaf. Fel arfer roedd yn digwydd ar sail wirfoddol, gyda'r unigolion yn cael eu cymell gan eu hymrwymiad personol i egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'u datblygiad proffesiynol parhaus hwy eu hunain. Roedd rhai ardaloedd wedi rhannu eu hadnodd Aseswyr Bydd Pennaf ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn hwyluso annibyniaeth yr asesiad gan Aseswr Budd Pennaf oddi ar y tîm/gwasanaeth a oedd yn gyfrifol am y Person Perthnasol, a hefyd yn cynyddu'r gronfa adnoddau o Aseswyr Budd Pennaf a oedd ar gael o safbwynt sgiliau a gallu. Mae'r Cod Ymarfer yn datgan y dylid gwneud ymdrechion i sicrhau bod gan yr Aseswr Budd Pennaf sy'n cwblhau asesiad y sgiliau proffesiynol a phrofiad a'r rheiny'n berthnasol i amgylchiadau a chyflwr y Person Perthnasol, e.e. anabledd dysgu. Lle'r oedd Aseswyr Budd Pennaf yn dod o un agwedd ar y gwasanaeth, megis iechyd meddwl, neu un proffesiwn, megis gwaith cymdeithasol, yna roedd hyn yn golygu nad oedd sgiliau a phrofiadau nyrsio, therapi galwedigaethol a seicoleg ar gael yn y gronfa o Aseswyr Budd Pennaf. Dyma sy'n digwydd yn fwyfwy yn Lloegr.

Roedd rôl yr Aseswr Budd Pennaf yn cael ei hystyried ar y cyfan yn "ychwanegiad" gan y rheolwyr a'r gweithwyr proffesiynol y siaradon ni gyda hwy ac nid oes statws arbennig iddi, yn wahanol i rôl yr Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy er enghraifft. Dywedodd Aseswyr Budd Pennaf eu bod yn aml yn gorfod trafod telerau gyda'u rheolwr i gael eu rhyddhau i wneud yr asesiadau.

Roedd tystiolaeth bod yr Aseswyr Budd Pennaf yn cael effaith gadarnhaol ar sylfaen wybodaeth eu cydweithwyr gan eu bod yn gweithredu fel adnodd/hyrwyddwr mewnol o fewn eu timau ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Yn hanesyddol, roedd nifer fawr o Aseswyr Budd Pennaf yn cael eu hyfforddi ond yn peidio â chael eu defnyddio oherwydd y lefel isel o geisiadau, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. O ganlyniad, bu cyfradd "gilio" uchel a pheth cyndynrwydd ar ran Aseswyr Budd Pennaf unigol i wneud asesiadau os nad oedd ganddynt yr hyder i gyflawni swyddogaeth sy'n arwyddocaol iawn a phrofiad o leoliadau a gwasanaethau arbennig.

Ar adeg yr arolygiad, niferoedd cyfyngedig iawn o Aseswyr Budd Pennaf oedd ar gael i rai byrddau iechyd o ystyried maint y byrddau iechyd a chymhlethdod anghenion rhai o'u cleifion. Yn yr un modd, roedd problemau o ran mynediad at feddygon Adran 12 mewn rhai ardaloedd. Mae'r meddygon hyn yn cael eu cyllido fesul achos trwy dalu ffi ac maent wedi'u cymeradwyo a'u hyfforddi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ran yr holl BILLau yng Nghymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Roedd y BILL wedi enwebu staff sy'n gweithredu fel cysylltiadau ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr ysbytai yr ymwelwyd â hwy a oedd yn gallu rhoi cyngor a chymorth i'w cydweithwyr ynglŷn â chymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Yn ystod yr ymweliadau â safleoedd roedd yn amlwg bod staff ar y wardiau'n gwybod pwy oedd eu person cyswllt a sut i gysylltu â'r person hwnnw i gael cyngor ynghylch sefyllfaoedd y gallai'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fod yn berthnasol iddynt.

Hyfforddi Staff a Chymorth ar gyfer Arfer Da

Roedd hyfforddiant mewn cartrefi gofal yn cael ei ddarparu trwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol mewn rhai ardaloedd. Yn ymarferol, roedd cael mynediad at hyfforddiant yn broblem gan fod mwy o alw am leoedd ar y cyrsiau nag a oedd o leoedd ar gael a'r anhawster o ran rhyddhau staff i fynd ar y cyrsiau. Roedd rhai sefydliadau gofal unigol yn darparu hyfforddiant mewnol hefyd ond roedd hwn yn aml yn cael ei gyfuno â hyfforddiant diogelu oedolion sydd o bosibl yn egluro'n rhannol pam nad ydynt wastad yn deall eu cyfrifoldebau penodol dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd cydgysylltwyr y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid hefyd yn darparu llawer o hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth anffurfiol trwy bresenoldeb mewn cyfarfodydd tîm o fewn awdurdodau rheoli, gan gynnwys ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd y rheolwyr cartrefi gofal y cyfarfuom ni â hwy yn ystod yr arolygiad yn teimlo bod arnynt angen hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau penderfynu mewn perthynas â chymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i'w lleoliad penodol a'u rôl o ran asesu unigolion a hefyd mwy o ganllawiau ynglŷn â sut i gwblhau'r gwaith papur.

Nid yw Fframwaith Hyfforddiant Sgiliau Craidd y GIG yn cynnwys hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar hyn o bryd ac roedd staff yn teimlo bod hynny wedi cyfrannu at leihau proffil y rhain. Roedd arolwg a gynhaliwyd o'r holl gynghorau a BILlau yn dangos bod y mwyafrif o'r hyfforddiant ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei ddarparu trwy hyfforddiant dros hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan gyda 42% yn cynnig hyfforddiant diweddarau blynyddol a'r gweddill yn ei gwneud yn ofynnol cael hyfforddiant diweddarau naill ai bob dwy flynedd (23%) neu bob tair blynedd (19%). Roedd hyfforddiant yn y meysydd hyn yn orfodol dim ond mewn 69% o'r sefydliadau a oedd yn rhan o'r arolwg, er gwaethaf y nifer cynyddol o gleifion â dementia a chyflyrau eraill a all amharu ar eu galluedd meddyliol. Mewn rhai ardaloedd, gwybodaeth gyfyngedig iawn oedd gan staff yn nhimau gofal cymdeithasol y cyngor am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac nid oeddent yn cydnabod eu cyfrifoldebau na'u cyfraniad at ddiogelu hawliau dynol unigolion.

Roedd gan nifer o bartneriaethau fforymau cyfnewid arfer da ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a oedd yn cwrdd bob hyn a hyn i drafod a rhannu gwersi a ddysgwyd o achosion cymhleth ac i ystyried cyfraith achos sy'n dod i'r amlwg. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi ac roedd nifer dda'n eu mynychu ond mewn un lleoliad nid oedd y fforwm wedi cwrdd am beth amser. Yn yr un modd, nid oedd grŵp cydgysylltwyr Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Cymru gyfan wedi cael ei gynnull am sawl mis. Bydd y fforymau hyn yn bwysig yn y dyfodol i gynnal y ffocws ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a dylid ystyried cyfranogiad Awdurdodau Rheoli yn y fforwm hwn neu mewn fforwm tebyg.

Mae Aseswyr Budd Pennaf yn cael eu hyfforddi mewn ffyrdd gwahanol ar draws y cyrff goruchwyliol yng Nghymru. Bu problem hirsefydlog o ran achredu cyrsiau Aseswyr Budd Pennaf a oedd yn cael ei wneud yn flaenorol gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol a ddaeth i ben yn 2012. Mae hyn bellach yn cael ei oruchwylio gan yr Adran Iechyd yn Lloegr trwy'r coleg Gwaith Cymdeithasol; fodd bynnag, nid oes unrhyw gyrsiau newydd wedi cael eu cymeradwyo ers i'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol ddod i ben yn 2012. Mae hyn yn golygu nad yw rhai cyrsiau a ddefnyddir gan Gyrrff Goruchwyliol yng Nghymru wedi'u hachredu a bod eraill yn anfon eu Haseswyr Budd Pennaf i Loegr i gael mynediad at y cyrsiau sy'n dal wedi'u hachredu. Bydd angen ymdrin â hyn yn brydlon er mwyn cynyddu'r gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf ledled Cymru a sicrhau cysondeb o ran yr arbenigedd a'r ystod o sgiliau sydd gan Aseswyr Budd Pennaf, gan gynnwys sicrhau bod gan ystod briodol o weithwyr proffesiynol fynediad at

hyfforddiant ar gyfer Aseswyr Budd Pennaf yng Nghymru. Nid oedd yr Aseswyr Budd Pennaf y siaradon ni gyda hwy wastad yn cael goruchwyliaeth un i un, boed yn broffesiynol neu'n glinigol, ar gyfer eu cyfrifoldebau fel Aseswr Budd Pennaf.

5. Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Trefniadau Llywodraethu a Rheoli ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau â chyfrifoldebau fel Corff Goruchwylol ac Awdurdod Rheoli fod â threfniadau llywodraethu eglur i sicrhau bod rolau'n cael eu gwahanu'n eglur. Yn ymarferol roedd hyn yn fwy amlwg yn y BILLau, y mae pob un ohonynt yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth ac a oedd felly wedi sefydlu strwythurau llywodraethu manwl ac eglur. Nid oedd awydd yn y BILLau i newid eu rôl i un fel Awdurdod Rheoli yn unig gan fod y rheolwyr iechyd y cyfwelwyd â hwy'n cydnabod bod yn rhaid i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fod yn rhan o'u dull beunyddiol o reoli gofal cleifion.

O'r saith cyngor a adolygwyd fel rhan o'r gwaith maes, nid oedd darpariaeth gofal cartref fewnol gan ddau mwyach ac felly nid oeddent yn Awdurdodau Rheoli. Yn y rhai sy'n cyflawni'r ddwy swyddogaeth o hyd; roedd ymdrechion wedi cael eu gwneud i ddisgrifio'r modd y caiff swyddogaethau eu gwahanu pan gafodd y trefniadau eu sefydlu yn 2009. Fodd bynnag, ers hynny mae uno rolau rheoli a gwasanaethau wedi golygu nad yw'r trefniadau llywodraethu hyn wedi'u diffinio a'u gwahanu'n eglur mwyach, a dylid eu hadnewyddu a'u diweddarau, yn enwedig yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys.

Yn y mwyafrif o sefydliadau a adolygwyd, roedd swyddogaethau cydgysylltu/goruchwylol mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu lletya o fewn timau diogelu ond, mewn eraill, roeddent wedi'u lleoli gyda gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Canfu arolygwyr nad y lle y mae'r gwasanaeth wedi'i lleoli sy'n effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ond yn hytrach sgiliau ac ymrwymiad yr unigolyn sydd wedi'i ddynodi fel y swyddog arweiniol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Wrth i weithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gynyddu'n gynt ac yn gynt yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried pa drefniadau rheoli fydd eu hangen. Mae'r swyddog/rheolwr arweiniol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel arfer ar lefel rheolwr gwasanaeth mewn awdurdodau lleol ac ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr yn y BILLau.

Trefniadau Partneriaeth sydd ar Waith

Roedd rhai trefniadau partneriaeth effeithiol ar waith ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a oedd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Fel gyda phartneriaethau eraill ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, mae maint rhai BILLau a blaenoriaethau gwrthgyferbyniol yn gwneud hyn yn anodd i'w gyflawni mewn rhai ardaloedd. Roedd y mwyafrif wedi cyflawni lefel o weithio mewn partneriaeth a oedd yn amrywio o reoli ar y cyd, consortiwm a gefnogir gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac a letyir gan un sefydliad, i gydweithio a chynnal cyfarfodydd ymarfer ar y cyd a rhannu cyfleoedd hyfforddi. Cafodd manteision posibl dull partneriaeth eu hamlygu'n gynharach yn yr adroddiad hwn ac mae'n debygol y bydd angen gwaith pellach yn y maes yma wrth i'r galw gynyddu ac wrth i gyllidebau ostwng. Lle mae trefniadau partneriaeth yn bodoli, mae'n hanfodol bod y Byrddau Gweithredol sy'n rhan ohonynt yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu eglur ar waith; gan gynnwys ymrwymiad i gynnal y gwasanaeth a sicrhau bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol.

Sicrhau Ansawdd a Monitro Perfformiad

Gofynnwyd i'r Cyrff Goruchwyliol ddisgrifio'u trefniadau adrodd ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fel rhan o'r arolwg. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dynodi tuedd gynyddol tuag at adrodd wrth y Bwrdd Diogelu Oedolion ac wrth Bwyllgorau Craffu mewn cynghorau ac wrth Fyrddau Gweithredol y BILlau. Fe wnaeth nifer o gynghorau hefyd amlygu eu bwriad i gynnwys gweithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu. Roedd rhai'n gwneud hynny'n barod ond, mewn eraill, nid oedd yn eglur a oedd gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei chasglu a sut yr oedd yn cael ei monitro gan y weithrediaeth ac aelodau etholedig.

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cynhaliodd y cyngor archwiliad o effeithiolrwydd y gwasanaeth Aseswyr Budd Pennaf a'r modd yr oeddent yn gweithio gyda Chynrychiolwyr Person Perthnasol. Hwn oedd yr archwiliad cyntaf o'i fath yng Nghymru ac roedd yn cynnwys holiaduron a anfonwyd at Gynrychiolwyr Person Perthnasol ac archwilio asesiadau gan ddefnyddio offeryn a ddatblygwyd i'r pwrpas. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio gwelliannau a wnaed yn ansawdd yr asesiadau a sylfaen wybodaeth y gronfa o Aseswyr Budd Pennaf.

Yn yr un modd, nid oedd mecanweithiau sicrhau ansawdd ar gyfer ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn amlwg a chanfu arolygwyr nifer o wallau mewn ceisiadau unigol na sylwyd arnynt ar y pryd gan y llofnodwr a oedd yn gyfrifol am awdurdodi'r cais dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd gan arolygwyr rai pryderon hefyd nad oedd y llofnodwr yn y Corff Goruchwyliol wastad ar y lefel y byddai rhywun yn disgwyl iddo fod o ystyried arwyddocâd y ddeddfwriaeth a'r effaith ar y Person Perthnasol. Dylai lefel a rôl llofnodwyr dynodedig gael ei nodi fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym mhob corff goruchwyliol.

Comisiynu a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Nid oedd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'u cynnwys yn y contract a'r fanyleb gwasanaeth nac yn y trefniadau monitro contractau rhwng cartrefi gofal ac awdurdodau lleol a welwyd yn ystod yr adolygiad hwn. Roedd nifer o reolwyr comisiynu y cyfwelwyd â hwy bellach yn cydnabod pwysigrwydd casglu'r wybodaeth hon ynghyd â gwybodaeth am gwynion, canmoliaeth a diogelu i greu darlun o'r darparwyr y maent yn eu comisiynu. Yn arbennig, lle maent wedi comisiynu gwasanaethau y byddech yn disgwyl iddynt gynnwys lefel o weithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oherwydd natur gymhleth y gwasanaeth, mae'n achos pryder nad oedd hyn yn cael ei fonitro'n flaenorol gan yr awdurdodau lleol na'r byrddau iechyd.

Atodiadau

- A. Rhestr Termau
- B. Cyfeiriadau

Diolchiadau

Hoffai AGGCC ac AGIC ddiolch i'r unigolion, gofalwyr a holl staff a rheolwyr y cynghorau a'r BILlau a restrir isod ac a gymerodd ran yn y gwaith maes am eu holl gymorth a chydweithrediad gyda'r arolygiad hwn.

Awdurdodau Lleol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Powys

Byrddau Iechyd Lleol:

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Arolygwyr a oedd yn rhan o'r gwaith maes:

AGGCC

Chris Humphrey Arolygydd Arweiniol, Jill Lewis, Richard Tebboth, Phil Mitchell, Kevin Barker, Ann Rowling, Liz Woods, Marc Roberts.

AGIC

Evan Humphries Arolygydd Arweiniol, Einir Price, Dinene Rixon, Rhian Williams-Flew, Margot Dos Anjos.

Atodiad A

RHESTR TERMAU: Termau allweddol a ddefnyddir yn yr Adroddiadau ar yr Adolygiad o'r Defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Achos anawdurdodedig o golli rhyddid	Sefyllfa lle mae rhywun yn colli ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i'r achos o golli rhyddid gael ei awdurdodi gan awdurdodiad safonol neu frys dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
Adolygiad	Golwg newydd, ffurfiol ar sefyllfa person perthnasol pan fo, neu pan all fod newid mewn amgylchiadau wedi digwydd a all ei gwneud yn angenrheidiol newid, neu derfynu awdurdodiad safonol dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am wneud asesiadau a ffurfio barnau proffesiynol ynglŷn â gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac annog darparwyr gwasanaethau i wella.
Amodau	Gofynion y gall corff goruchwyliol eu gosod wrth roi awdurdodiad safonol dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Aseswr Budd Pennaf.
Anhwylder Meddyliol	Unrhyw anhwylder neu anabledd sy'n ymwneud â'r meddwl, heblaw am ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau. Mae hyn yn cynnwys yr holl anabledau dysgu.
Asesiad at ddibenion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid	Rhaid i bob un o'r chwe asesiad fod yn gadarnhaol er mwyn rhoi awdurdodiad.
Asesiad budd pennaf	Asesiad i ganfod ai colli rhyddid yw'r hyn sydd orau i'r person perthnasol, a yw'n angenrheidiol i atal niwed i'r person ac a yw'n ymateb cymesur i'r tebygolrwydd y bydd y niwed hwnnw'n digwydd ac i ddifrifoldeb y niwed hwnnw. Rhaid i hyn gael ei benderfynu gan Aseswr Budd Pennaf.

Asesiad Cymhwyster	Asesiad i ganfod a yw person yn anghymwys ar gyfer awdurdodiad safonol dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid am y byddai'r awdurdodiad yn gwrthdaro â gofynion sy'n cael, neu a allai gael, eu gosod ar y person dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
Asesiad dim gwrthodiadau	Asesiad i ganfod pa un a oes unrhyw awdurdod arall yn bodoli i wneud penderfyniadau ar ran y person a fyddai'n atal penderfyniad i roi awdurdodiad safonol dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad rhag blaen, neu benderfyniad dilys gan ddirprwy neu dderbyniwr a benodwyd dan Atwrneiaeth Arhosol.
Asesiad iechyd meddwl	Asesiad i ganfod pa un a oes gan berson anhwylder meddyliol ai peidio. Rhaid i hyn gael ei benderfynu gan ymarferydd meddygol.
Asesiad o alluedd meddyliol	Asesiad i ganfod pa un a oes gan berson alluedd ai peidio i benderfynu a ddylai gael ei letya mewn ysbyty neu gartref gofal arbennig at ddibenion cael gofal neu driniaeth.
Aseswr Budd Pennaf	Person sy'n gwneud asesiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
Awdurdod Lleol/Cyngor	Y cyngor lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ardal arbennig yn y wlad. Mae uwch reolwyr mewn gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni swyddogaeth Corff Goruchwyliol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd gan gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor awdurdodau rheoli dynodedig.
Awdurdod Rheoli	Y person neu'r corff â chyfrifoldeb rheoli am yr ysbyty neu gartref gofal arbennig lle mae person wedi colli, neu lle allai golli, ei ryddid. Mae'n atebol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw.

Awdurdodiad brys	Awdurdodiad a roddwyd gan awdurdod rheoli am uchafswm o saith niwrnod, a all gael ei ymestyn wedyn am uchafswm o saith niwrnod pellach gan gorff goruchwyliol. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli beri i berson golli ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal tra bo'r broses ar gyfer awdurdodiad safonol dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei chwblhau.
Awdurdodiad safonol	Awdurdodiad a roddwyd gan gorff goruchwyliol, ar ôl cwblhau'r broses asesu statudol, sy'n rhoi awdurdodiad cyfreithiol i beri i berson perthnasol golli ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal arbennig.
Bwrdd Iechyd Lleol	Mae Byrddau Iechyd Lleol yn cyflawni swyddogaeth y corff goruchwyliol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol partner, yn yr un ardal fel arfer, i gynllunio strategaethau hirdymor ar gyfer ymdrin â materion iechyd a lles. Maent yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion mewnol ar wahân pan ydynt yn awdurdodau rheoli.
Cartref Gofal	Cyfleuster gofal sydd wedi'i gofrestru dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.
Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol	Mae'r Cod Ymarfer yn cefnogi'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac yn darparu arweiniad ar gyfer pawb sy'n gofalu am ac/neu'n gwneud penderfyniadau ar ran oedolion sydd â diffyg galluedd. Mae'r cod yn cynnwys astudiaethau achos ac yn egluro mewn mwy o fanylder beth yw nodweddion allweddol y Ddeddf Galluedd Meddyliol
Colli Rhyddid	Mae Colli Rhyddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ynglŷn ag amgylchiadau pan fo rhyddid person yn cael ei dynnu oddi arno. Mae ei ystyr yn ymarferol yn cael ei ddiffinio trwy gyfraith achos.
Corff goruchwyliol	Gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gafwyd gan awdurdod rheoli a, lle mae'r holl asesiadau'n cyd-fynd â hynny, awdurdodi'r achos o golli rhyddid.

Cydsyniad

Cytuno â dull gweithredu – yn benodol yn yr adroddiad hwn â chynllun gofal neu gyfundrefn triniaeth. Er mwyn i gydsyniad fod yn ddilys yn gyfreithiol, rhaid bod gan y person sy'n ei roi y galluedd i wneud y penderfyniad, bod wedi cael gwybodaeth ddigonol i wneud y penderfyniad, a pheidio â bod dan unrhyw orfodaeth na phwysau amhriodol.

Cyfyngu ar ryddid

Gweithred a orfodir ar berson nad yw o'r fath faint na dwyster fel ei fod yn gyfystyr â cholli rhyddid.

Cynrychiolydd person perthnasol

Person, sy'n annibynnol oddi ar yr ysbyty neu'r cartref gofal arbennig, a benodwyd i gynnal cyswllt â'r person perthnasol ac i gynrychioli a rhoi cymorth ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl sydd o bosibl â diffyg gallu i wneud rhai penderfyniadau drostynt hwy eu hunain. Y pum egwyddor allweddol yn y Ddeddf yw:

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r gallu i'w gwneud oni bai y profir fel arall.
2. Rhaid rhoi'r holl gymorth ymarferol i berson cyn bod unrhyw un yn ei drin fel rhywun nad yw'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.
3. Dim ond am fod unigolyn yn gwneud penderfyniad a all gael ei gyfrif yn un annoeth, ni ddylid ei drin fel rhywun sydd â diffyg galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw.
4. Rhaid i unrhyw beth a wneir neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran person sydd â diffyg galluedd gael ei wneud er ei fudd pennaf.
5. Dylai unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person sydd â diffyg gallu fod y trefniant lleiaf cyfyngol o ran ei hawliau sylfaenol a'i ryddid.

Deddf Iechyd Meddwl 1983	Deddfwriaeth sy'n ymwneud yn bennaf â gofal gorfodol a thriniaeth orfodol ar gyfer cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw yn yr ysbyty ar gyfer triniaeth iechyd meddwl, triniaeth dan oruchwyliaeth yn y gymuned a gwarcheidiaeth.
Eiriolaeth	Cymorth a chefnogaeth annibynnol i ddeall materion a chyfleu safbwyntiau, teimladau a syniadau person ei hun.
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol	Eiriolwr hyfforddedig sy'n rhoi cymorth a chynrychiolaeth i berson sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes unrhyw un arall gan y person i'w gefnogi. Cafodd y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol ei sefydlu gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a chaiff ei swyddogaethau eu diffinio ynddi.
Galluedd	Enw byr am alluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater arbennig ar yr adeg y mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud. Ceir diffiniad cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
Gofalwr	Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl ar gyfer perthnasau, ffrindiau neu gymdogion sy'n fusgrell, yn sâl neu'n agored i niwed am reswm arall.
Gofyniad Cymhwyso	Unrhyw un o'r chwe gofyniad cymhwyso (oedran, iechyd meddwl, galluedd meddyliol, budd pennaf, cymhwyster a dim gwrthodiadau) y mae angen eu hasesu a'u hateb er mwyn rhoi awdurdodiad safonol dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
Goruchaf Lys	Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl terfynol yn y DU ar gyfer achosion sifil, ac ar gyfer achosion troseddol yn Lloegr, yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n gwrandao achosion sydd o'r pwys mwyaf o safbwynt y cyhoedd neu o safbwynt cyfansoddiadol ac sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan.

Llys Gwarchod	Y llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl sydd â diffyg galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Dyma'r penderfynwr eithaf ac mae ganddo'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos sy'n rhoi enghreifftiau o'r modd y dylid rhoi'r gyfraith ar waith.
Meddygon Adran 12	Meddygon a gymeradwywyd dan Adran 12(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
Oedran	Asesiad i ganfod a yw'r Person Perthnasol wedi cyrraedd 18 oed.
Person perthnasol	Person sydd wedi colli, neu a allai golli, ei ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal.
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid	Y fframwaith o drefniadau diogelu dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar gyfer pobl y mae angen iddynt golli eu rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd pennaf ar gyfer gofal neu driniaeth ac sydd â diffyg galluedd i gydsynio â'r trefniadau a wneir ar gyfer eu gofal neu driniaeth.
Uchafswm cyfnod awdurdodiad	Y cyfnod hiraf y gall corff goruchwyliol roi awdurdodiad safonol ar ei gyfer dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, na all fod am fwy na 12 mis. Rhaid iddo beidio â bod yn hirach na'r cyfnod a argymhellir gan yr Aseswr Budd Pennaf, a gall ddod i ben yn gynharach gyda chytundeb y Corff Goruchwyliol.
Ysbyty Annibynnol	Fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 – ysbyty, y mae ei brif ddiben yn un i ddarparu triniaeth feddygol neu seiciatrïg ar gyfer afiechyd neu anhwylder meddyliol neu ofal lliniarol neu unrhyw sefydliad arall, nad yw wedi'i ddiffinio fel un o ysbytai'r gwasanaeth iechyd, lle rhoddir triniaeth neu ofal nyrsio (neu'r ddau) i bobl y gellir eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
Ysbyty neu gartref gofal perthnasol	Yr ysbyty neu gartref gofal arbennig lle mae'r person wedi colli, neu lle gall golli, ei ryddid.

Atodiad B

RHESTR TERMAU: Cyfeiriadau allweddol ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl sydd o bosibl â diffyg galluedd i wneud rhai penderfyniadau drostyn hwy eu hunain

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents>

Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/mcaconsent/?lang=en>

Dyfarniad y Goruchaf Lys P (trwy ei gyfaill cyfreitha y Cyfreithiwr Swyddogol) (FC) (Apelydd) v Cyngor Gorllewin Caer a Chaer a rhywun arall (Ymatebwyr)

http://supremecourt.uk/decided-cases/docs/UKSC_2012_0068_Judgment.pdf

Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/140224dolsreporten.pdf>